Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At sylw Gweinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol **Bro Morgannwg** ar gyfer **2023-24**.

| | |
|---|---|
| Y camau sydd wedi'u cymryd i hyrwyddo teithio llesol | Gwnaed gwelliannau i gerddwyr mewn lleoliadau amrywiol yn y Fro gan gynnwys cyrbau isel, palmant botymog ac ehangu'r droedffordd.<br><br>Parhaodd swyddogion i weithio gyda Sustrans ac ysgolion i ysgrifennu eu Cynlluniau Teithio Llesol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded, beicio a mynd ar sgwter i'r ysgol bob dydd, gan leihau tagfeydd a gwella diogelwch wrth gatiau'r ysgol.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd rhan yng Ngrŵp Siarter Staff Iach y Fro, gan weithio gyda'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Mae'r Cyngor yn diweddaru ei wefan Teithio Llesol (TLl) yn rheolaidd ac mae'n parhau i'w hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel-and-Safe-Routes-in-Communities-Projects.aspx<br><br>Mae'r Cyngor yn cyhoeddi clipiau TLl byr yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon TLl a gofyn am awgrymiadau a sylwadau gan y cyhoedd. Mae'r clip llawn ar dudalen we Bro Morgannwg - Teithio Llesol (valeofglamorgan.gov.uk)<br><br>Mae'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn rhannu arfer da a gwybodaeth. Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd bob 6 wythnos gyda Llywodraeth Cymru/cynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru i drafod prosiectau presennol a rhai'r dyfodol.<br><br>Darparwyd cyfleusterau storio sgwteri a beiciau mewn 6 ysgol arall yn y Fro.<br><br>Gosodwyd cyfleusterau storio beiciau mewn lleoliadau ledled y Fro y gofynnwyd amdanynt gan ffynonellau amrywiol, fel aelodau'r cyhoedd.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol (NSCT) Lefelau 1 a 2, i bob ysgol gynradd ar gyfer eu disgyblion |

| | |
|---|---|
| | Blwyddyn 6 a'r flwyddyn ariannol hon, cynigiwyd un cwrs ddiwedd mis Gorffennaf, yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Cynhaliwyd y cwrs hwn yn y Bont-faen, i roi cyfle i fyfyrwyr 9-11 oed sy'n byw yn rhan wledig yr awdurdod hwn, gymryd rhan mewn hyfforddiant oddi ar y ffordd ac ar y ffordd. Yn anffodus, oherwydd diffyg ardal hyfforddi addas o amgylch rhai o'n hysgolion gwledig, dim ond Lefel 1 y gellir ei ddarparu.<br><br>Yn ogystal, gan weithio gyda Pedal Power, gwnaeth pum intern o Dow Silicon, y Barri, hefyd ymgymryd â hyfforddiant NSCT gyda phob un yn cyflawni Lefel 1 a phedwar yn cyflawni Lefel 2 - aeth dau o'r rhain ymlaen wedyn i gymryd rhan mewn sesiwn lefel 3 wedi'i theilwra. Felly, dechreuodd 878 o fyfyrwyr ar eu NSCT gyda'r awdurdod hwn yn 2023/24, gyda 798 o'r disgyblion hyn yn cyrraedd Lefel 1 a 488 yn mynd ymlaen i basio eu Lefel 2, gan fynd y tu hwnt i'n targed beicio.<br><br>Parhaodd hyfforddiant cerddwyr ifanc, gan gynnwys Kerbcraft, i gael ei ddarparu i ysgolion cynradd trwy gydol 23/24. Gyda chymorth gwirfoddolwyr, cwblhaodd 146 o ddisgyblion mewn pum ysgol Kerbcraft a derbyniodd 623 o fyfyrwyr mewn un ar bymtheg o ysgolion hyfforddiant cerddwyr ifanc. Ein targed ar gyfer y flwyddyn hon oedd o leiaf 300 o fyfyrwyr.<br><br><br>Parhaodd 8 ysgol â'u her [Cerdded Unwaith yr Wythnos (WOW) Living Streets] i annog TLl i'r ysgol o oedran ifanc.<br><br>Gosodwyd gorsafoedd pwmpio/atgyweirio beiciau mewn lleoliadau pellach ar draws y Fro, gan gynnwys Llancarfan a Sain Nicolas.<br><br>Symudwyd rhwystrau ar lwybrau cerdded/beicio lle nodwyd y byddai hynny'n gwella mynediad ar gyfer beiciau, beiciau wedi'u haddasu, sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn. |
| Y camau a gymerwyd er mwyn sicrhau llwybrau TLl diogel a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig. | Disgwylir i bob cynllun datblygu newydd ym Mro Morgannwg gynnig seilwaith Teithio Llesol ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio sy'n cael eu paratoi drwy'r Broses Gynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Disgwylir i bob datblygiad gynnig seilwaith Teithio Llesol naill ai drwy waith priffyrdd A278/A38 a/neu gyllid A106. |

| | |
|---|---|
| | Defnyddir y Gronfa Dyrannu Teithio Llesol Graidd, Arian Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ac Arian Trafnidiaeth Gynaliadwy Adran 106 i wella llwybrau TLl (seilwaith newydd, cyrbau isel, palmant botymog, croesfannau) a darparu cyfleusterau storio beiciau a gorsafoedd atgyweirio beiciau mewn ysgolion ac yn y Sir.<br><br>Cymeradwywyd Cais Ffyniant Gyffredin ar gyfer pedwar Locer Beic Brompton mewn gorsafoedd trên ledled y Fro.<br><br>Symudwyd rhwystrau yn isffordd Doc y Barri ac ar y llwybr oddi ar Bont Gladstone i wella mynediad i bawb. |
| Costau yr aethpwyd iddynt ar gyfer llwybrau a chyfleusterau TLl newydd a gwelliannau i lwybrau TLl presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gafodd eu gwneud yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | Defnyddiwyd Grant Craidd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru sef £645,000 ym mlwyddyn ariannol 23/24 ar gyfer:<br>• Parhad o ddyluniad y llwybr teithio llesol rhwng y Barri a Dinas Powys<br>• Arolygon yn ymwneud â dylunio llwybr teithio llesol rhwng Waycock Cross a'r Maes Awyr<br>• Arolygon ar lwybr teithio llesol arfaethedig o Lôn Pum Milltir, Sain Nicolas i Groes Cwrlwys<br>• Parhad dyluniad y llwybr teithio llesol o Sili i Cosmeston<br>• Darparu llochesi a chyfleusterau storio beiciau/sgwteri mewn ysgolion<br>• Darparu cyfleusterau parcio beiciau yng nghanol trefi/pentrefi<br>• Gosod cyrbau isel, palmant botymog a gwelliannau i lwybrau.<br>• Darparu beiciau ar gyfer rhai ysgolion sydd â Chynllun Teithio Llesol Ysgolion<br><br>Cyllid Teithio Llesol o £2,287,741 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 ar gyfer adeiladu llwybr TLl trwy Eglwys Brewys.  Roedd y gwaith yn cynnwys pedwar safle bws newydd a gwaith gwella trafnidiaeth gynaliadwy cysylltiedig, croesfannau nas rheolir trwy ystâd 'y coed' a gosod troedffordd o flaen y Gathering Place, Sain Tathan.<br><br>Cyllid Teithio Llesol o £659,767 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 ar gyfer adeiladu llwybr defnydd a rennir ar hyd Heol yr Orsaf sy'n cysylltu â'r llwybrau trwy Trwyn y Rhws ac ar hyd Fontygary Road. Roedd y gwaith yn cynnwys gerddi glaw ar hyd Heol yr Orsaf a chroesfannau blaenoriaeth i gerddwyr, yn ogystal â mannau parcio ffurfiol.<br><br>Cyllid Teithio Llesol o £336,074 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 ar gyfer gosod croesfan twcan yng Ngwenfô a gwelliannau i gerddwyr drwy'r pentref.  Cwblhawyd dyluniad cysyniad y 'ddolen goll' ar hyd Port Road ar gyfer cyfle cyllido yn y dyfodol. |



£53,006 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar gyfer Prosiect Dylunio Cymunedol Ysgol Gynradd Fairfield.  Derbyniwyd cyllid i gwblhau gwaith sy'n gysylltiedig â chau stryd ysgol wedi ei amseru am y tro cyntaf ym Mro Morgannwg, a oedd yn cynnwys gwelliannau i gerddwyr a gosod gerddi glaw.



Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 23/24 - £331,000 wedi ei ymrwymo i osod croesfan twcan newydd yng Nghyfnewidfa Doc y Barri.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 i wella troedffordd i gerddwyr yng nghefn Parc Jenner, y Barri.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 - £14,422 i osod meinciau a gorsaf atgyweirio a phwmpio beiciau yn Sain Nicolas.



| | |
|---|---|
| | Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 - £1,015.76 i osod gorsaf atgyweirio a phwmpio beiciau yn Llan-faes.<br><br>Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 – £11,845.56 i wella troedffyrdd i gerddwyr ar Gladstone Road (Memo) a gerddi Gladstone Road.<br><br>Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 - £101,900 wedi ei ymrwymo i uwchraddio troedffordd drwy Gerddi Clare i feicffordd/troedffordd.<br><br>Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 - £2,152 ar gyfer cyswllt troedffordd newydd o ddatblygiad Taylor Wimpey, Sili.<br><br><br><br>Cronfa Partneriaeth Natur Leol ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 - £5,000 wedi'i ddyfarnu i ddarparu arian cyfatebol i loches to gwyrdd yn Ysgol Gynradd Romilly.<br><br> *Ysgol Gynradd Romilly – lloches to gwyrdd*<br><br>Cyllid P-RC/Metro – Cyfnewidfa Doc y Barri wedi ei gwblhau yn cynnwys 2 loches feiciau, gan gynnwys lloches Bikeep gyda tho gwyrdd, gwefru trydan a theledu cylch cyfyng. |

| | |
|---|---|
| |  |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o'r seilwaith a weithredwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu neu eu hariannu'n rhannol gan drydydd partïon. | Blwyddyn ariannol 24/25, £645,000 (Teithio Llesol Craidd Llywodraeth Cymru)<br>• Dylunio llwybr TLl – Sili i Cosmeston<br>• Dylunio llwybr TLl o Waycock Cross i Faes Awyr Caerdydd<br>• Dylunio llwybr TLl - Y Barri i Ddinas Powys<br>• Dewisiadau a dichonoldeb ar gyfer llwybr TLl – Dinas Powys i Gaerdydd<br>• Cyfleusterau storio beiciau mewn trefi, pentrefi ac ysgolion<br>• Gwelliannau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol (cyrbau isel a phalmant botymog)<br>• Llwybrau beicio ar strydoedd<br><br>Cronfa Teithio Llesol blwyddyn ariannol 24/25 – £1,130,000 Teithio Llesol i'r dwyrain o'r Barri. Adeiladu llwybrau gwell i gerddwyr a dylunio llwybr TLl ar hyd Coldbrook Road East.<br><br>Cronfa Teithio Llesol blwyddyn ariannol 24/25 – £327,005 Sili i Cosmeston. Cwblhau dyluniad llwybr TLl, cyflwyno cais cynllunio a datblygu gosod croesfan Pegasus ger St Mary's Well Bay.<br><br>Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau blwyddyn ariannol 24/25 – £227,000 Strydoedd Ysgol. Ennill pwerau i orfodi Troseddau Traffig sy'n Symud a gweithredu cau mwy o strydoedd ysgol wedi'u hamseru.<br><br>Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau blwyddyn ariannol 24/25 - £397,868 Ysgol Gynradd Sili. Adeiladu troedffordd a gwelliannau cysylltiedig eraill o flaen, ac yn arwain at, Ysgol Gynradd Sili. |

<table>
<tr><td></td><td>Mae arian Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 ar gael yn Sili, y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Sain Nicolas a'r Barri i alluogi gwelliannau trafnidiaeth gynaliadwy.<br><br>Blwyddyn ariannol 24/25 - Cais Ffyniant Gyffredin wedi ei gymeradwyo a’i weithredu ar gyfer 4 x Doc Beic Brompton mewn gorsafoedd trenau ym Mro Morgannwg.<br><br>Blwyddyn ariannol 24/25 – Cais Ffyniant Gyffredin wedi ei gymeradwyo ar gyfer goleuadau gwell yn y twnnel yn Heol yr Isffordd i gynorthwyo gyda symudiadau teithio llesol.</td></tr>
<tr><td>Hyd y llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir</td><td>750m VALE-SPR-003K Eglwys Brewys – beicio ar wahân i’r ffordd a llwybr i gerddwyr.<br><br><br>270m VALE-RHSE-043D Heol yr Orsaf, Y Rhws – seilwaith beicio a throedffordd newydd.<br><br><br><br>100m VALE-SPR-003J Gathering Place, Sain Tathan llwybr troed newydd fel parhad i droedffordd bresennol a adeiladwyd gan ddatblygwr tai.<br><br>110m – troedffordd wedi ei huwchraddio i 3.5m o ddefnydd a rennir fel rhan o Corey Way, datblygiad Cei Dwyrain, Y Barri.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | 305m – Hayes Road, Y Barri – beicffordd troedffordd a rennir 3.5m newydd ar hyd blaen safle cynllun Tai newydd Bro Morgannwg.<br><br>115m – Heol Lecwydd, Llandochau – beicffordd troedffordd a rennir 3.5m newydd ar hyd blaen safle cynllun Tai Hafod.<br><br>65m – Swanbridge Road, Sili – beicffordd trodeffordd a rennir 3.5m newydd ar safle Taylor Wimpey. |
| Hyd y llwybrau wedi'u gwella:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | cerddwyr 650m - Vale-BARRY-035D - 5 x gwelliant i groesfan nas rheolir a throedffordd Dyfan Road, Y Barri<br><br>cerddwyr 270m - VALE-BARRY-038E - Heol Romilly, Y Barri.<br><br>cerddwyr 375m - VALE-Barry-036A - Hannah St/Hywel St, Y Barri - gwelliannau i gyrraedd safon TLl.<br><br>cerddwyr 300m - VALE-PEN-020B - Masefield Road, Penarth – croesfan nas rheolir i ddod â'r llwybr i fyny i safon TLl.<br><br>cerddwyr 435m - VALE-Barry-036b 7 x croesfan nas rheolir ar hyd Court Road, Y Barri.<br><br>cerddwyr 340m VALE-PEN-022E – Pill Street/Cawnpore Street, Penarth gwella troedffyrdd i gynnwys croesfannau nas rheolir.<br><br>cerddwyr 310m VALE-PEN-022F- gwella croesfannau nas rheolir Harriett Street a Stryd y Bont i ddod â llwybrau i fyny i safon TLl.<br><br>cerddwyr 540m - croesfannau nas rheolir VALE-Barry-041C a VALE-Barry 041D ar Peterswell Road a Dawan Close, Y Barri<br><br>cerddwyr 875m – VALE-WENV-049C – dod â'r llwybr drwy bentref Gwenfô i fyny i safon TLl<br><br>150m o welliannau i gerddwyr ger Ysgol Gynradd Llanbedr-y-fro yr Eglwys yng Nghymru i gynorthwyo gyda gweithredu stryd ysgol yn y dyfodol. |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | Blwyddyn ariannol 23/24 - darparwyd cyfleusterau storio sgwteri a beiciau mewn 6 ysgol arall yn y Fro (CTLl Craidd). |



*Ysgol Gynradd Dinas Powys*

Darperir lle i storio beiciau mewn lleoliadau yn y Fro – Gorsaf Drenau Llanilltud Fawr, Campfa Brawd, Canolfan Gymunedol Sili, Pafiliwn Sili.



*Cyfnewidfa Llanilltud Fawr*

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Haf 2024 - Lansiodd y Cyngor gam 4 y cynllun Beicio i'r Gwaith ar gyfer gweithwyr, sy'n galluogi prynu beiciau hyd at £3500. Prynwyd 56 beic gan weithwyr drwy ildio cyflog, ar gyfanswm cost o £85,000.

Trwy gais llwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gwnaeth y Cyngor barhau Clwb Beicio llwyddiannus Tŷ Iolo mewn partneriaeth â Pedal Power.  Rhoddodd y Clwb Beicio hyfforddiant beicio i 70 o blant 6-10 oed sy'n byw yn Y Barri yn 2024.



Cafwyd cais llwyddiannus i Fwrdd Prosiect Sero er mwyn i'r Cyngor gyflawni achrediad Cyflogwr sy'n Dda i Feicwyr. Rhoddwyd statws arian ar gyfer y Swyddfeydd Dinesig a Depo’r Alpau.

Mae'r tîm Teithio Llesol wedi mynychu cyfarfodydd gyda Fforwm 50+ y Fro a'r Fforwm Ieuenctid i drafod rhwystrau i gerdded a beicio, yn ogystal â llwybrau cerdded gyda thrigolion sydd â phryderon yn eu hardal.

Mae ceisiadau grant drwy’r Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, Fframwaith Gwella’r Metro, Bargen Ddinesig Caerdydd ac ati i gyd yn cynnwys cynigion Teithio Llesol er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud y gorau o bob llwybr ariannu sydd ar gael.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (cyhoeddiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw’r Prif Weithredwr: Rob Thomas

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: